**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Chwefror 2016

**Aelod Cabinet: Cyng. Peredur Jenkins**

**Pwnc: Arbedion Effeithlonrwydd**

**Swyddog cyswllt: Meinir Owen**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet:

- ystyried argymhellion Pwyllgor Craffu Cymunedau a nodwyd ym mhwynt 4.2
- gymeradwyo cynlluniau effeithlonrwydd a nodir ym mhwynt 2.4, 3.1, 4.1 a 5.1.

---

**Barn yr aelod lleol**
Nid yw'n fater lleol.

---

**Cefndir**

1.1 Fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor rydym yn taflunio bwlch ariannol tybiedig o tua £50m dros y pedair blynedd 2014/15 - 2017/18. Gyda chynnydd tybiedig o 3.5% yn y Dreth Gyngor ac arbedion sydd eisoes ar y gweill, byddai hyn yn gadael tua £34m o arbedion pellach i'w ddarganfod.

1.2 Bu i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth 2014, dderbyn y strategaeth isod oedd yn rhagweld cyfarch y bwlch yma drwy:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Gyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn amrediad o 3.5% - 5% |
| Y gyllideb ysgolion | Ystyried rhoddi targed i'r gyllideb ysgolion yn seiliedig ar beth sy'n ymarferol. |
| Y Comisiwn ar Lywodraethu | Ystyried a fydd yna arbedion yn deillio o ad-drefnu y gellir dibynnu arnynt a chymryd i ystyriaeth. |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr sydd ar ôl |

1.3 Mae'r adrannau wedi cyflwyno cynigion effeithlonrwydd yn unol â'r targedau a osodwyd iddynt gan y Cabinet ar y 1af o Ebril 2014.

1.4 O ran proses penderfynu mae'r cynigion yn cael sylw gan weithgor craffu o blith Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ac er herio effaith ar bobl Gwynedd, ac yna yn cael eu cyflwyno er penderfyniad i'r Cabinet.

1.5 Cymeradwywyd rhan helaeth o'r cynigion effeithlonrwydd i gyfarfod y targedau yn Rhagfyr 2014 gyda rhai gwasanaethau i gyflwyno cynigion pellach i gyfarch eu targedau.

1.6 Gan gofio mai arbedion effeithlonrwydd yr ydym yn sôn amdanynt yma fe ddylai'r effaith ar ganlyniadau i drigolion fod yn llai na'r hyn y byddwn yn ei weld yn ein cyfundrefn toriadau.

**2. Cynigion effeithlonrwydd pellach**

2.1 Fe gynhaliwyd cyfarfod o'r Gweithgor i drafod cynigion effeithlonrwydd pellach Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar 17 Rhagfyr 2015.

2.2 Bu i'r gweithgor roi sylw i'r cynigion gan ystyried goblygiadau gweithredu'r cynigion ac amlygu unrhyw ystyriaethau o ran effaith a oedd angen dwyn i sylw'r Cabinet.

2.3 Nodwyd pryder am y cynlluniau canlynol gan y Gweithgor:

- OED25 - nodwyd pryder nad oedd hyn yn annog pobl hyn i fwyta a byddai hynny'n creu trafferthion yn y dyfodol. Nodwyd y Pennaeth y byddai pob achos yn cael ei adolygu'n unigol a threfniadau'n newid yn unol â'r angen.
- OED29 - nodwyd pryder bod angen mwy o gydweithio gyda'r trydydd sector yn y dyfodol a byddai hwn yn llesteirio hynny. Nodwyd y Pennaeth byddai'r adran yn cadw llygad ar hynny ac adrodd yn ôl pe bai angen.
- CC3 – nodwyd pryder y byddai pobl yn gorfod teithio'n bell i gofrestru genedigaeth, marwolaeth neu briodas. Nodwyd y byddai'r adran yn edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaeth yn lleol e.e. Siop Gwynedd, Llyfrgell leol ayb.

2.4 Ceir rhestr gyflawn o'r holl gynigion yn Atodiad 1. Yn ogystal, mae'r effaith ar bobl Gwynedd yn cael ei nodi fesul cynnig yn yr atodiad. Fe welir o'r rhestr bod cyfanswm y cynigion effeithlonrwydd yma dros y tair blynedd yn £549,164.

| Cyf. | Cynllun | Amserlen | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
| Plant1 | Ffioedd Proffeisynol Cyfreithiol | | £32,000 | | £32,000 |
| Plant2 | Cynllun Teithio | £30,000 | | | £30,000 |
| Plant4 | Cynlluniau Derwen | | £50,000 | | £50,000 |
| OED25 | Adolygu pecynnau cinio / te (gofal cartref) | | £50,000 | £100,000 | £150,000 |
| OED27 | Gweithio'n electroneg ar draws y 3 ardal | | £17,664 | | £17,664 |
| OED29 | Cyllideb y trydydd sector | | | £65,000 | £65,000 |
| OED34 | Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes | | £37,000 | £113,000 | £150,000 |
| CC3 | Diddymu dwy swydd rhan amser o fewn y Gwasanaeth Cofrestru | | | £24,500 | £24,500 |
| TAI 6 | Gwella effeithlonrwydd | | £10,000 | £20,000 | £30,000 |
| **CYFANSWM** | | **£30,000** | **£196,664** | **£ 322,500** | **£549,164** |

## 3. Cynlluniau i ddod yn ôl i'r Cabinet am benderfyniad terfynol

3.1 Yn adroddiad y Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014 nodwyd bod angen i bedwar cynllun Anabledd Dysgu ddod yn ôl i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Mae'r cynlluniau hyn yn dod i gyfanswm o £545,000 ac fe geir manylion pellach y cynlluniau yn Atodiad 2 ynghyd ag asesiad effaith cydraddoldeb y cynlluniau.

| Cyf. | Cynllun | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| OED 7 | Adolygu darpariaeth dydd ar gyfer oedolion ag Anabledd Dysgu | £40,000 | £45,000 | £85,000 |
| OED 8 | Adolygu Gwasanaethau Cefnogol Anabledd Dysgu | £70,000 | £110,000 | £180,000 |
| OED 9 | Adolygu darpariaeth Gofal Ysbaid Anabledd Dysgu | | £130,000 | £130,000 |
| OED 10 | Ail asesu ag adolygu Gwasanaethau Llety Cefnogol Anabledd Dysgu | £75,000 | £75,000 | £150,000 |
| **CYFANSWM** | | **£185,000** | **£360,000** | **£545,000** |

## 4. Cynlluniau i fynd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu cyn dod i benderfyniad terfynol

4.1 Bu i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2014 benderfynu bod cynllun 'Trefn wahanol o newid lampau' angen derbyn sylw pellach gan Bwyllgor Craffu Cymunedau. Roedd cais i'r pwyllgor edrych a chymharu'r cynnig gyda'r drefn bresennol o 'bulk change'.

4.2 Bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw i'r mater yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2015 ac roedd y pwyllgor yn fodlon gyda'r arbediad a'i fod yn gwella'r profiad i drigolion Gwynedd, ar yr amod:

i) bod yr Adran yn cadw golwg ar raddfa allbwn y goleuadau o ran diogelwch i'r cyhoedd

ii) a thrafod gyda Chynghorau Cymuned yng nghyd-destun diffodd rhannol os yn berthnasol.

## 5. Cynlluniau Effeithlonrwydd Strategol

5.1 Erbyn hyn mae rhai cynlluniau effeithlonrwydd strategol pellach yn ddigon aeddfed i gael eu gweithredu ar sail tystiolaeth o arbedion ariannol yn sgil gweithredu neu fod achos busnes cadarn yn ei le gyda sicrwydd rhesymol o allu gwireddu'r arbedion.

| **Cynllun** | **2014/15** |
|---|---|
| Arbedion Cludiant Ardal Arfon | £267,000 |
| Arbedion Caffael Trawsadrannol | £118,000 |
| Lleihau absenoldebau salwch | £50,000 |
| Arbedion Technoleg Gynorthwyol (Teleofal) | £217,000 |
| Arbedion drwy wneud defnydd mwy effeithiol o gerbydau fflyd y Cyngor | £130,000 |
| Ail-ddylunio trefniadau argraffu'r Cyngor | £78,000 |
| **CYFANSWM** | **£860,000** |

5.2 Yn unol a'r dyletswydd dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ystyriwyd materion cydraddoldeb a chynhaliwyd asesiad yn amlygu'r ardrawiadau posib o ran cynllun Cludiant Arfon a Teleofal. Mae'r asesiad yn amlygu'r ardrawiadau posib a'r trefniadau sydd mewn lle i ymateb (gweler Atodiad 3).

5.3 Mae trefniadau mewn lle i sicrhau fod y sefyllfa yn cael ei monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, rydym yn hyderus fod canfyddiadau'r asesiad yn gyfredol ac yn berthnasol i'r penderfyniad a geisir.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**
Cyfarch y bwlch ariannol drwy arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r strategaeth gytunedig. Yn ei hanfod dylai arbedion effeithlonrwydd gael llai o effaith ar drigolion Gwynedd na thoriadau.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
"Yn amlwg, mae rhai o'r cynigion effeithlonrwydd yn cael mwy o effaith nag eraill. Fodd bynnag, fel sydd yn amlwg o'r trafodaethau gerbron y Cabinet yn y cyfarfod hwn ar doriadau, trafodaethau a fydd yn cael ei ail-adrodd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor llawn, mae'r angen i wneud arbedion effeithlonrwydd sydd yn cael llai o effaith ar drigolion na'r toriadau sydd yn cael ei ystyried, yn fwyfwy pwysig. Byddwn yn annog y Cabinet i fabwysiadau'r cynigion yn yr adroddiad hwn rhag creu baich ychwanegol ar y gyfundrefn toriadau fydd, yn ei hanfod, yn fwy llym."

**Y Swyddog Monitro:**
"Fe gyflwynaf unrhyw sytlwadau o safbwynt priodoldeb yn y cyfarfod."

**Y Pennaeth Cyllid:**
“Fe groesawi’r y camau positif a gynhwysir yn yr adroddiad yma, ac yn arbennig mewn perthynas a’r Cynlluniau Effeithlonrwydd Strategol yn rhan 5, a’r camau a gymerywd gan yr Adran Plant a Theuluoedd a’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant fel a amlinellir yn rhannau 2 a 3, i allu cynnig y cynlluniau effeithlonrwydd unigol a gynhwysir o fewn yr adroddiad, ac sydd yn cyfrannu bron i £1.1miliwn tuag at ofynnion penodol o fewn y gyfundrefn arbedion effeithlonrwydd perthnasol, ac hefyd yn galluogi isafu ar doriadau anorfod.”

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Cynlluniau Effeithlonrwydd Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Atodiad 2 – Cynlluniau Effeithlonrwydd Anabledd Dysgu
Atodiad 3 – Cynlluniau Effeithlonrwydd Strategol